

Rhif: WG39130



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaid-gymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Ionawr 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English

Trosolwg	Rydym am wybod eich barn ynghylch pa gyrff cyhoeddus y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol iddynt a sut y gellir cyflawni'r ddyletswydd yng Nghymru.
Sut i ymateb	Dyma ymgynghoriad ysgrifenedig electronig. Gellir gweld cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon a gallwch lenwi'r ffurflen ar-lein, lawrlwytho'r ffurflen, ei llenwi â llaw a'i hanfon atom drwy'r post i'r cyfeiriad a ddarperir neu ei hanfon drwy e-bost.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol	Mae modd gweld y ddogfen ymgynghori ar Wefan Llywodraeth Cymru yn gov.wales/consultations . Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Manylion Cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Yr Is-Adran Gymunedau Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost Socio-economicDuty@gov.wales

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data! gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Tudalen Gynnwys

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip	5
Cefndir Deddfwriaethol	7
Adran 1 - Diffinio'r Termau Allweddol	8
Adran 2 - Y Cyrff Cyhoeddus y mae'r Ddyletswydd yn Berthnasol iddynt	13
Adran 3 - Bodloni gofynion y ddyletswydd	15
Adran 4 - Cysylltiadau rhwng y ddyletswydd hon a Dyletswyddau eraill	19
ADRAN 5 - Dogfennau Ategol	21
Crynodeb o'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol	22
Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad:	23
Atodiad A – Y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n cyfrannu at Gymru Gyfartal	25

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i achosi ansicrwydd aruthrol, nid lleiaf mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol. Mae degawdau o fod yn aelod o'r UE wedi creu gwaddol o fanteision sy'n ymwneud â sawl agwedd ar fywyd beunyddiol yng Nghymru, er enghraifft hawliau o ran cyflogaeth a'r amgylchedd a rheoliadau iechyd a diogelwch.

Mewn ymateb i'r galwadau gan lawer o randdeiliaid i Lywodraeth Cymru weithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun ymadael â'r UE, mae llinynnau gwaith yn cael eu datblygu, ac mae cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn un agwedd ar hynny. A siarad yn gyffredinol, mae hynny'n golygu yng Nghymru y byddwn yn defnyddio ein pwerau i osod dyletswydd ddeddfwriaethol ar gyrff cyhoeddus perthnasol fel eu bod, wrth wneud penderfyniadau strategol, yn ystyried yr angen i leihau anghydaddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn ei fanifesto etholiad, ymrwymodd Prif Weinidog Cymru i gychwyn Rhan 1, Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹ ("Deddf 2010") – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ("y ddyletswydd"). Ar ôl hynny, ar 11 Mehefin 2019, rhoddais ddatganiad llafar gerbron y Cyfarfod Llawn ynghylch Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Yn y datganiad, dywedais:

"Er mwyn dangos ac ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i egwyddorion Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith i ystyried dewisiadau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bydd hyn yn dechrau drwy weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal â gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adolygu a chryfhau rheoliadau Cymru ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus."

Mae cyswllt diamheuol rhwng anghydaddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cryfhau camau gweithredu i alluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ymdrin â'r her o ran mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n pontio cenedlaethau. Mae'n darparu ar gyfer un egwyddor ("yr egwyddor datblygu cynaliadwy") i lywio sut y mae cyrff cyhoeddus yn arfer swyddogaethau fel eu bod yn ystyried sut y maent yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain er mwyn mynd i'r afael yn well â heriau hirdymor megis anghydaddoldebau o ran canlyniad. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015² felly'n cefnogi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ceisio gwella cydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010¹ (a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru).

Mae cychwyn y ddyletswydd yn adeiladu ar yr uchod ac yn rhoi cyfle inni wneud pethau'n wahanol, gan sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydaddoldeb yn rhan ganolog o brosesau cyrff cyhoeddus perthnasol o wneud penderfyniadau strategol. Bydd y gwaith hwn yn y pen draw yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydaddoldeb sy'n cysylltu â chynlluniau i gryfhau ein trefniadau ar gyfer partneriaethau cymdeithasol gan y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Bil

1 <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

2 <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

Partneriaeth Gymdeithasol posibl yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwyntiau gwahanol.

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf mewn proses i gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed gan Brif Weinidog Cymru a minnau. Ei nod yw ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol am ba gyrff cyhoeddus y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt a sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd honno. Bydd yn llywio canllawiau er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gweithio ar gyfer pobl Cymru.

Jane Hutt AC/AM

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Deputy Minister and Chief Whip

Cefndir Deddfwriaethol

Mae Deddf 2010¹ yn fframwaith cyfreithiol sy'n cysoni cyfraith gwahaniaethu ac yn cryfhau'r gyfraith bresennol sy'n cefnogi cynnydd ar gydraddoldeb. Mae Deddf 2010¹ yn cyfuno ac yn ailgyflwyno sawl deddf gan gynnwys Deddf Cyflog Cyfartal 1970³, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976⁴ a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995⁵. Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn y personau hynny sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf. Mae Deddf 2010 hefyd yn gosod dyletswydd 'sylw dyledus' (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus⁶) ar gyrff cyhoeddus, i sicrhau bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ystyriaeth allweddol i awdurdodau cyhoeddus pan fônt yn cyflawni eu swyddogaethau.

Pan ddaeth Deddf 2010¹ i rym, roedd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn segur yn y llyfr statud oherwydd dewisodd Llywodraeth y DU beidio â'i chychwyn. Roedd Deddf Cymru 2017 yn deddfu am fodel newydd o Ddatganoli i Gymru, a oedd yn cynnwys datganoli'r pŵer i gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru i Weinidogion Cymru. Mae adran 45 o Ddeddf Cymru 2017⁷ yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf 2010⁸ er mwyn cyflawni hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010¹ yng Nghymru – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Gan edrych ar yr adrannau perthnasol yn Rhan 1 o Ddeddf 2010¹ yn eu tro:

O dan adran 1, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus allweddol, wrth wneud **penderfyniadau strategol**, roi **sylw dyledus** i'r angen i leihau **anghydraddoldebau o ran canlyniad** sy'n deillio o **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae'n rhestru'r cyrff y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt, ac mae'n cynnwys darpariaeth i Weinidogion gyhoeddi canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus yn hynny o beth.

(Mae'r termau allweddol mewn print bras wedi'u hesbonio isod yn adran 1 o'r ddogfen hon.)

Mae adran 2 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gan enwi'r cyrff cyhoeddus perthnasol y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Wrth benderfynu pa gyrff sy'n 'awdurdodau perthnasol', rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a yw pob awdurdod yn bodloni'r meini prawf a bennir yn adran 2(6) o Ddeddf 2010¹.

Mae adran 3 yn egluro na fydd y ddyletswydd yn creu unrhyw hawliau traddodadwy newydd i unigolion.

Yn gryno, bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, wrth wneud **penderfyniadau strategol**, roi sylw dyledus i'r angen i leihau **anghydraddoldebau o ran canlyniad** sy'n deillio o **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

3 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1970/41/pdfs/ukpga_19700041_en.pdf

4 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1976/74/enacted>

5 <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1995/50/contents>

6 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149>

7 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted>

8 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

Adran 1 – Diffinio'r Termau Allweddol

Mae'r testun isod yn edrych ar yr amryfal ddiffiniadau o dermau allweddol adran 1, sef:

- (i) Penderfyniadau o natur strategol;
- (ii) Sylw dyledus;
- (iii) Anghydraddoldebau o ran canlyniad;
- (iv) Anfantaidd economaidd-gymdeithasol.

Datblygwyd y diffiniadau hyn o waith polisi a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru a thrwy ystyried canllawiau perthnasol o rannau eraill o'r DU. Byddant yn cael eu defnyddio o fewn canllawiau statudol a fydd yn cael eu llunio gan Weinidogion Cymru i helpu cyrff cyhoeddus perthnasol i gyflawni eu dyletswydd o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig hon.

i) Penderfyniadau o natur strategol

Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n mynd gyda Deddf 2010¹ yn nodi mewn perthynas ag adran 1 (y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol):

*"this section requires specified public bodies, when making strategic decisions such as deciding priorities and setting objectives, to consider how their decisions might help to reduce the inequalities associated with socio-economic disadvantage."*³

Dymuna Llywodraeth Cymru ddefnyddio diffiniad sydd wirioneddol yn adlewyrchu'r penderfyniadau pwysig y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud. Cynigir, felly, fod penderfyniad strategol yng Nghymru, yng nghyd-destun y ddyletswydd arfaethedig, yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

"Penderfyniadau sy'n pennu blaenoriaethau cyffredinol, strategaethau a pholisïau allweddol sefydliad, ei dargedau, ei ddulliau cyffredinol o weithredu a'i variant o ran cyflenwi ei fusnes".

Yn gyffredinol, bydd penderfyniad strategol yn un sy'n effeithio ar sut y mae'r corff yn cyflawni ei ddiben statudol dros gyfnod sylweddol o amser (h.y. deuddeg mis) fel nad yw'n cynnwys penderfyniadau arferol 'dydd i ddydd'. I rai cyrff cyhoeddus perthnasol, mae'n bosibl mai'n flynyddol y bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud, mewn achosion eraill, bydd angen eu gwneud yn amlach.

Mae enghreifftiau posibl isod (nid yw'n rhestr gynhwysfawr) o benderfyniadau strategol a wneir gan gyrff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, a pan ddylent roi ystyriaeth benodol i gyfrifoldebau economaidd-gymdeithasol:

Awdurdodau Lleol

- Gosod a chyhoeddi amcanion llesiant⁹;
- Paratoi cynllun datblygu lleol¹⁰;
- Paratoi cynllun trafndiaeth lleol;
- Paratoi strategaeth dai;
- Paratoi strategaeth ddatblygu economaidd/adfywio megis Bargenion Dinesig;
- Datblygu polisïau addysg;

⁹ <https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-canllawiau>

¹⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cynllunioch-cymuned-llyfryn-cyflwyno-cynlluniau-datblygu-leol.pdf>

Byrddau Iechyd Lleol

- Pennu a chyhoeddi amcanion llesiant⁹;
- Datblygu Cynlluniau Integredig ar gyfer y Tymor Canolig¹¹;
- Cynllunio a chynigion newidiadau i wasanaethau
- Asesiadau Iechyd Poblogaeth¹²;

Gwasanaethau Tân ac Achub

- Pennu a chyhoeddi amcanion llesiant⁹;
- Cynlluniau strategol neu gorfforaethol;
- Cynllun gwella neu'r cynllun a fydd yn ei olynu;
- Adolygiadau o gapasiti a gallu ar y rheng flaen;

Parciau Cenedlaethol

- Pennu a chyhoeddi amcanion llesiant⁹;
- Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol¹³;
- Cynlluniau Datblygu Lleol Parciau Cenedlaethol¹⁴.

ii) Sylw dyledus

Mae sylw dyledus yn gysyniad cyfreithiol sefydledig mewn cyfraith cydraddoldeb. Dylai cyrff cyhoeddus ddeall yn iawn yr hyn y mae'n ei olygu mewn perthynas â Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n golygu rhoi sylw i fater penodol mewn ffordd sy'n gymesur â'i berthnasedd. Byddem yn disgwyl i'r un egwyddorion fod yn gymwys i'r ddyletswydd.

Mae gan gyrff cyhoeddus perthnasol eisoes amcanion polisi clir. Nid yw'r ddyletswydd newydd yn drech na'r rhain fel bod angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu rhai newydd, ond mae'n bosibl y byddant yn dewis gwneud mewn rhai achosion. Yn hytrach, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol newydd, ystyried buddioldeb lleihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ynghyd â'u hamcanion eraill.

iii) Anghydraddoldebau o ran canlyniad

Mae'r nodiadau esboniadol¹⁵ sy'n mynd gyda Deddf 2010¹ yn nodi:

“Such inequalities could include inequalities in education, health, housing, crime rates, or other matters associated with socio-economic disadvantage. It is for public bodies subject to the duty to determine which socio-economic inequalities they are in a position to influence.”

Dymuna Llywodraeth Cymru ddefnyddio dull na fydd yn achosi baich biwrocrataidd diangen nac yn dyblygu gwaith i gyrff cyhoeddus perthnasol, a lle bo'n bosibl, sy'n caniatáu i'r ddyletswydd gael ei hymgorffori ochr yn ochr ag arferion gwaith presennol. Ar y sail honno, dymuna Llywodraeth Cymru helpu cyrff cyhoeddus i benderfynu pa anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sy'n bwysig i Gymru drwy gysylltu hyn â mesurau anghydraddoldeb presennol. Rydym yn cynnig y gellir gwneud hyn drwy sawl

¹¹ <https://llyw.cymru/fframwaith-cynllunio-gig-cymru-2020-i-2023>

¹² <https://gweddiill.llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/population/index1b1b.html?force=cy>

¹³ Environment Act 1995 Section 66(1)

¹⁴ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 Adran 37(5), Deddf yr Amgylchedd 1995 Is-adrannau.68, 69, a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Adran4A

¹⁵ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/notes/division/3/1/1>

ffordd. Yn gyntaf, gellir gwneud hynny drwy gyrff cyhoeddus yn rhoi sylw i'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol a osodwyd gan Weinidogion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n berthnasol i anghydraddoldebau. Yn bennaf, rhain fyddai'r dangosyddion sy'n cyfrannu fwyaf at nod Llesiant 'Cymru fwy cyfartal'. Diben y nod hwn yw creu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth eu cefndir a'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Mae'r ffordd y mae'r 46 o ddangosyddion presennol a'r nodau Llesiant wedi'u mapio i'w gweld yn adroddiad a gwefan Llesiant Cymru¹⁶. At y diben hwn, y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn **Atodiad A** yw'r rheini sydd wedi'u mapio yn unol â'r nod Llesiant 'Cymru fwy cyfartal'.

O dan y dull arfaethedig, rydym yn cydnabod fodd bynnag y bydd rhai cyrff cyhoeddus perthnasol nad ydynt o fewn cwmipas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac felly nid yw'n ofynnol iddynt ar hyn o bryd ystyried sut y maent yn cyfrannu at y dangosyddion hyn ac at wneud Cymru yn fwy cyfartal. Fodd bynnag, credwn fod y dull arfaethedig hwn yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng y cyrff cyhoeddus hyn a'u cymheiriaid (sydd o fewn cwmipas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) o ran ystyried set gyffredin o ganlyniadau a ddefnyddir i fesur cynnydd o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Ar ben hynny, wrth gyflawni'r Ddyletswydd, dim ond i'r angen i leihau ystod yr anghydraddoldebau o ran canlyniad sy'n amlwg yn eu hardaloedd neu'r rheini sy'n arbennig o berthnasol i'w swyddogaethau craidd y byddem yn disgwyl i gyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw dyledus iddo. Mae hyn yn cydnabod bod cyfraniad cyrff cyhoeddus gwahanol yn wahanol a'i fod yn dibynnu ar eu pwerau a'u dyletswyddau presennol.

Yn ail, ac yn gysylltiedig â'r uchod, yw adroddiad Llesiant Cymru ¹⁷ sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar lesiant yng Nghymru a chipolwg ar y cynnydd yr ydym yn ei wneud mewn perthynas â chyflawni'r saith nod Llesiant, gan ddadansoddi'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol ochr yn ochr â'r ystod o wybodaeth ystadegol arall. Nododd adroddiad diweddar 2018-19 y bwriad i ddiwygio'r set bresennol o 46 o ddangosyddion cenedlaethol er mwyn iddynt gyd-fynd ag argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg¹⁸, i ymestyn y dangosydd gwahaniaeth mewn cyflog i gynnwys grwpiau poblogaeth eraill, ac i roi dangosydd newydd ar gyfer dinasyddion byd-eang gweithgar yn lle dangosydd 46. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu cyrff cyhoeddus perthnasol yn fwy i asesu anghydraddoldebau o ran canlyniad.

Yn drydydd, A yw Cymru'n Decach¹⁹, yr adroddiad blynyddol a gynhyrchir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n adolygu sut y mae Cymru yn perfformio ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan ddarparu darlun o obeithion bywyd pobl yng Nghymru.

Nid yw'r uchod i fod yn rhestr gynhwysfawr, ond efallai y bydd cyrff cyhoeddus am ategu'r uchod gyda deallusrwydd lleol.

iv) Anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae nodweddion anfantais economaidd-gymdeithasol yn gymhleth ac yn aml yn rhyng-gysylltiedig, er enghraifft, mae canlyniadau iechyd yn gwaethygu fwyfwy ar draws y

¹⁶ <https://gov.wales/well-being-wales-progress-reports-against-well-being-goals>

¹⁷ <https://gov.wales/well-being-wales-2019>

¹⁸ <https://gov.wales/fair-work-commission>

¹⁹ <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

graddiant economaidd-gymdeithasol²⁰; mae cyfoeth cronedig is/dim cyfoeth cronedig yn arwain at gartrefi heb fynediad neu fynediad cyfyngedig at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, megis trafnidiaeth, addysg a gwasanaethau gofal iechyd; diffyg symudedd cymdeithasol o ran disgwyladau addysg uwch a chyfleoedd gyrfa; a gwahaniaethu os oes gan unigolion nodweddion gwarchodedig²¹.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei brofi yn y cymunedau hynny a ystyrir yn nodweddiadol fel rhai amddifad yn unig. Er enghraifft, mae dadansoddiad o'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru yn dangos er bod 20 y cant o bobl sydd mewn amddifadedd incwm yn byw yn y 10 y cant o'r ardaloedd o amddifadedd uchaf, mae hyn yn golygu nad yw 80 y cant o bobl mewn amddifadedd incwm yn byw mewn ardaloedd o'r fath. Fodd bynnag, gall byw mewn ardal o amddifadedd waethygu'r canlyniadau negyddol i unigolion ac aelwydydd gan fod yr ardaloedd hynny'n wynebu heriau sylweddol; ac mae hynny'n arbennig o wir yn achos amddifadedd sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn. Caiff hyn ei ddangos yn adroddiad Llesiant Cymru 2019¹⁷ sy'n cynnwys dadansoddiad o rai o'r Dangosyddion Cenedlaethol drwy ystyried y gwahaniaethau rhwng y rhai sydd fwyaf a lleiaf amddifad.

Yn ei chanllawiau statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio diffinio 'dan anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru', gan gynnwys cyfeiriad at fannau lle y gellir dod o hyd i ddata er mwyn ystyried y ffactorau sy'n cyfrannu at y math hon o anfantais. Drwy'r ymgynghoriad hwn yr ydym yn ceisio barn ar y diffiniad hwn.

Ym mis Gorffennaf 2017, ymgynghorodd yr Alban²² ar gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ("Dyletswydd yr Alban Decach"). Roedd ei hymgyngoriad yn diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol fel a ganlyn:

"living in less favourable social and economic circumstances than others in the same society. Features of socio-economic disadvantage can include low income and living in a deprived area."

Dengys yr ymatebion i'w hymgyngoriad, fodd bynnag, fod²³:

"Some respondents highlighted that socioeconomic disadvantage is very complex, and that this complexity must be reflected in the definition.....However, others felt that the ultimate aim of the duty was being obscured by too many terms being used to describe the problems that should be addressed. These respondents wished to see a stronger focus on tackling the causes of poverty and wealth inequality, rather than ameliorating the consequences."

Oherwydd cymhlethdod, lleoliad a ffactorau cydgysylltiol anfantais economaidd-gymdeithasol, a chan ystyried gwaith a wnaed yn yr Alban, cynigir yng Nghymru ein bod yn defnyddio diffiniad tebyg sydd wedi'i gynnwys yng nghanllawiau interim yr Alban ar gyfer Dyletswydd yr Alban Decach²⁴:

20 <http://www.arsyllfaiechdychoeddusymru.wales.nhs.uk/anghydraddoldeb-ac-annhegwch>

21 <https://www.gov.uk/government/publications/social-mobility-in-great-britain-state-of-the-nation-2018-to-2019>

22 <https://www.gov.scot/publications/consultation-socio-economic-duty/>

23 <https://www.gov.scot/publications/consultation-socio-economic-duty-analysis-responses/>

24 <https://www.gov.scot/publications/fairer-scotland-duty-interim-guidance-public-bodies/pages/2/>

“byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb unrhyw gyfoeth cronedig neu ychydig ohono, sy’n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol. Gellir profi anfantais economaidd-gymdeithasol mewn lleoedd a chymunedau o ddiddordeb, gan arwain at fwy o ganlyniadau negyddol megis allgáu cymdeithasol.”

Byddem yn croesawu eich barn ar y diffiniad arfaethedig hwn neu awgrymiadau ynghylch dull amgen, un o bosibl sy’n hoelio sylw ar yr effeithiau economaidd a chymdeithasol. Hoffem ddefnyddio diffiniad y gellir ei fesur drwy ddefnyddio data sydd eisoes yn bodoli.

Cwestiwn 1

Y termau allweddol a ddiffinnir yn yr adran hon yw:

- Penderfyniadau o natur strategol
- Anghydraddoldebau o ran canlyniad
- Anfantais economaidd-gymdeithasol

C1A – A ydych yn cytuno bod y diffiniadau uchod o’r termau hyn yn rhesymol, yn hawdd eu deall a dylid eu cynnwys o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd ar fin eu cyhoeddi ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol?

C1B – A ydych yn cytuno â’r diffiniad o ‘benderfyniad strategol’?

“Penderfyniadau sy’n pennu blaenoriaethau cyffredinol, strategaethau a pholisïau allweddol sefydliad, ei dargedau, ei ddulliau cyffredinol o weithredu a’i wariant o ran cyflenwi ei fusnes”

Os nad ydych yn cytuno â’r naill ddiffiniad, a fedrwch ddarparu un arall?

C1C – A ydych yn cytuno â’r dull arfaethedig i helpu i ddiffinio anghydraddoldebau o ran canlyniad?

C1D – A ydych yn cytuno â’r diffiniad o anfantais economaidd-gymdeithasol?

“byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb unrhyw gyfoeth cronedig neu ychydig ohono, sy’n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol. Gellir profi anfantais economaidd-gymdeithasol mewn lleoedd a chymunedau o ddiddordeb, gan arwain at fwy o ganlyniadau negyddol megis allgáu cymdeithasol.”

Os nad ydych yn cytuno â’r diffiniad hwn, a fedrwch ddarparu un arall?

Adran 2 – Y Cyrff Cyhoeddus y mae'r Ddyletswydd yn Berthnasol iddynt

Fel yr eglurwyd, mae geiriad Deddf 2010¹ yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu drwy reoliadau yr Awdurdodau Cymreig perthnasol (cyrff cyhoeddus) y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol iddynt. Mae Adran 2(4) yn nodi:

- (4) ... Welsh Ministers may by regulations amend section 1 so as to-
- (a) add a relevant authority to the authorities that are subject to the duty under subsection (1) of that section;
 - (b) remove a relevant authority from those that are subject to the duty;
 - (c) make the duty apply, in the case of a particular relevant authority, only in relation to certain functions that it has;
 - (d) in the case of a relevant authority to which the application of the duty is already restricted to certain functions, remove or alter the restriction.

Fodd bynnag, mae adran 2(6) o'r Ddeddf yn darparu 'prawf' i bennu pa Awdurdodau datganoledig Cymreig sy'n gymwys i'w cynnwys yn rhestr adran 1(3) o Ddeddf 2010¹ fel yr 'awdurdodau perthnasol' y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol iddynt. Mae adran 2(6) o Ddeddf 2010¹ yn nodi:

- (6) For the purposes of the power conferred by subsection (4) on the Welsh Ministers, "relevant authority" means [a devolved Welsh authority (within the meaning given by section 157A of the Government of Wales Act 2006) whose functions correspond] or are similar to those of an authority for the time being specified in subsection (3) of section 1 or referred to in subsection (4) of that section.

Mae hyn yn golygu er mwyn bod yn gorff cyhoeddus perthnasol datganoledig y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddo yng Nghymru, rhaid bod ei swyddogaethau yn cyfateb neu'n debyg i swyddogaethau awdurdod a nodir yn isadran (3) o adran 1.

Mae'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus perthnasol a nodir yn adran 1(3) o Ddeddf 2010¹, sy'n ymdrin â Lloegr, wedi pennu'r rhai a ganlyn yn wreiddiol:

- Gweinidog y Goron;
- adran o'r llywodraeth heblaw am y Gwasanaeth Diogelwch, y Gwasanaeth Dealluswydd Cudd neu Bencadlysoedd Cyfathrebu'r Llywodraeth;
- Cyngor sir neu gyngor dosbarth yn Lloegr;
- Awdurdod Llundain Fwyaf;
- Cyngor bwrdeistref yn Llundain;
- Cyngor Cyffredin Dinas Llundain yn ei gapasiti fel awdurdod lleol;
- Cyngor Ynysoedd Sili;
- Awdurdod Iechyd Strategol a sefydlwyd dan adran 13 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, neu wedi parhau i fodoli yn rhinwedd yr adran honno;
- Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol a sefydlwyd dan adran 18 o'r Ddeddf honno, neu wedi parhau i fodoli yn rhinwedd yr adran honno;
- Asiantaeth datblygu rhanbarthol a sefydlwyd gan Ddeddf Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol 1998;
- Awdurdod heddlu a sefydlwyd ar gyfer ardal yn Lloegr.

Yn ystod ei thaith drwy Dŷ'r Cyffredin, dywedodd y Cyfreithiwr Cyffredinol Vera Baird y canlynol mewn perthynas ag adran 1(3) o Ddeddf 2010¹:

“It is a new duty covering only a limited number of organisations [.....] and it is not a long list because it is intended to apply only to high level strategic bodies taking key decisions²⁵.”

Dylai rhanddeiliaid nodi, felly, fod meini prawf adran 2(6) o Ddeddf 2010¹ yn cyfyngu ar ddisgresiwn Gweinidogion Cymru, wrth gymhwyso'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, i'r cyrff hynny y tybir eu bod yn berthnasol, drwy gyfeirio at sut y mae eu swyddogaethau yn 'cyfateb neu'n debyg i'r' cyrff o Loegr a enwir yn y rhestr uchod.

Yng Nghymru, rydym yn cynnig bod yr awdurdodau cyhoeddus a ganlyn yn rhwym wrth y ddyletswydd, gan yr ymddengys eu bod yn bodloni'r prawf a nodir yn adran 2(6) o Ddeddf 2010¹:

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau Lleol;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau'r GIG;
- Awdurdodau Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu ar sail Cymru yn unig);
- Awdurdodau Tân ac Achub;
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i bob corff cyhoeddus yng Nghymru sy'n gwneud penderfyniadau strategol, fel bod modd sicrhau dull sy'n seiliedig ar system gyfan i leihau'r anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cwestiwn 2

C2A – Yn seiliedig ar y prawf yn adran 2(6) a'r rhestr o gyrff cyhoeddus Cymreig sydd, yn ein barn ni, yn bodloni'r prawf, a ydych yn cytuno y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn gymwys i'r holl gyrff a restrir? Nodwch unrhyw gyrff nad ydynt wedi'u rhestru yr ydych chi'n meddwl sy'n bodloni'r prawf uchod ac y dylid eu cynnwys, ynghyd ag unrhyw resymau am wneud hynny.

C2B – Yn seiliedig ar y rhestr o gyrff cyhoeddus cymwys Cymreig, nodwch unrhyw un neu ragor o'r cyrff a restrir y credwch chi na ddylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt, a rhowch esboniad pam y dylid eithrio awdurdod penodol.

²⁵ Hansard, Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, 5ed eisteddiad, col. 145 (11 Mehefin 2009).

Adran 3 – Bodloni gofynion y ddyletswydd

Mae'r adran hon yn nodi ein meddylfryd cychwynnol ynghylch y mathau o gamau y gallai cyrff cyhoeddus perthnasol eu cymryd i ddangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd.

Oherwydd pwysigrwydd y ddeddfwriaeth hon, mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn bod y gwaith o ran ei gweithredu yn symud yn ei flaen yn gyflym, ac felly maent yn cynnig bod y ddyletswydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.

I gefnogi cyrff cyhoeddus perthnasol, bydd canllawiau 'interim' yn cael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill 2020 am gyfnod o ddwy flynedd cyn cael eu cyhoeddi fel canllawiau statudol 'terfynol' ar 1 Ebrill 2022. Mae adran 1(2A) (aa) o Ddeddf 2010¹ uchod yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Bydd y canllawiau yn cael eu llunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus perthnasol, a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy gyfres o ddigwyddiadau.

Er bydd y ddyletswydd ar waith fel dyletswydd statudol o 1 Ebrill 2020 ymlaen, bwriadwyd i'r cyfnod gweithredu arfaethedig gyfleu y bydd dull gweithredu 'ysgafnach' ar waith yn ystod dwy flynedd gyntaf y ddyletswydd er mwyn caniatáu amser i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus perthnasol i fireinio'r canllawiau ac i'r cyrff cyhoeddus perthnasol ddeall y gofynion yn llawn, a'u hymgorffori yn eu harferion gweithio presennol. Bydd yn gyfle i'w hadolygu ac i drafod yn barhaus er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd yn gweithio fel y dylai yn ei hymgais i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, ar ôl cychwyn y ddyletswydd ar 1 Ebrill 2020, os bydd corff cyhoeddus perthnasol yn methu â pherfformio'r ddyletswydd, gallai unigolyn neu grŵp y mae penderfyniad y corff cyhoeddus hwnnw yn effeithio'n negyddol ar ei fuddiannau, wneud cais am adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod.

Fodd bynnag, i gefnogi cyrff cyhoeddus perthnasol, yn eu rôl fel rheoleiddwyr Deddf 2010¹, bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ("EHRC") yn hyrwyddo ac yn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Ar ben hynny, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar wneud penderfyniadau da yn helpu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau da sy'n gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r Rheol Gyfreithiol²⁶. Mae'n gwneud hynny drwy ddisgrifio'n glir ar ba sail y gellir herio camau gweithredu awdurdod cyhoeddus drwy weithdrefn adolygiad barnwrol.

Nid yw Deddf 2010¹ yn sefydlu 'gwahaniaethu ar sail economaidd-gymdeithasol' - nid yw statws economaidd-gymdeithasol yn nodwedd warchodedig yn y Ddeddf – ac felly ni fydd EHRC yn cymryd camau gweithredu ar sail 'gweithred anghyfreithlon'.

Byddem yn croesawu barn ar y dull arfaethedig hwn a'r amserlen ddwy flynedd gysylltiedig.

I lywio datblygiad y canllawiau interim, nodir isod sawl cam arfaethedig y bydd angen i gyrff cyhoeddus eu cymryd i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd. Fel y nodwyd, nid creu baich biwrocrataidd diangen na dyblygu gwaith yw'r bwriad felly nid yw'r rhestr hon yn ddiamodol. Hoffwn wybod barn rhanddeiliaid drwy'r ymgynghoriad hwn a

²⁶ <https://law.gov.wales/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/?lang=cy#/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/?tab=overview&lang=cy>

thrwy gyd-lunio'r canllawiau ar yr hyn fydd y camau allweddol posibl ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol.

Cam 1: Nodi pa benderfyniadau strategol y bydd awdurdodau cyhoeddus yn eu gwneud a phryd

Y dasg gyntaf ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol dan y ddyletswydd fydd nodi pa benderfyniadau strategol y byddant yn eu gwneud yn arferol. Bydd hyn felly yn caniatáu amser i gasglu tystiolaeth ac asesu ymlaen llaw. Efallai fod cyrff cyhoeddus eisoes yn gwneud hyn fel mater o drefn, er enghraifft, pan fo byrddau ieuchyd lleol yn cyflwyno cynigion i newid gwasanaeth, fe'u cefnogir fel arfer gan amrywiaeth o asesiadau effaith ar gyfer pob cynnig. (Mae Adran 1 yn cynnwys rhai awgrymiadau cychwynnol ar yr hyn y gellid ei ystyried yn 'benderfyniad strategol'.)

Ar wahân i hynny, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus⁶ yn cyfuno ac yn cryfhau'r dyletswyddau cydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â hil, rhywedd ac anabledd, ac yn estyn y diogelwch hwnnw i bobl ar sail oed, tuedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. O gofio'r cysylltiadau clir rhwng anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a'r rheini sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig penodol, mae'r ddwy ddyletswydd yn atgyfnerthu ac yn ategu ei gilydd mewn ffordd sy'n caniatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried mabwysiadu proses debyg wrth ystyried effaith eu penderfyniadau.

Cam 2: Nodi anghydraddoldebau o ran canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol

Wrth wneud penderfyniadau strategol, a nodir yng Ngham 1, bydd angen i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried canlyniadau eu penderfyniadau ar boblogaethau dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall cyrff cyhoeddus perthnasol feithrin yr ymwybyddiaeth hon gan y bydd ganddynt eisoes fynediad i amrywiaeth eang o ddata meintiol perthnasol a thystiolaeth arall gan gynnwys, er enghraifft:

- Y dangosyddion llesiant cenedlaethol²⁷;
- Data cyflogaeth blynyddol a gyhoeddwyd dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus²⁸;
- Adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n *Decach*'²⁹;
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru³⁰;
- Amrywiaeth eang o ystadegau swyddogol eraill drwy StatsCymru³¹ a'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol³².

Bydd rhai cyrff cyhoeddus perthnasol yn gallu casglu tystiolaeth drwy fod yn aelod o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ei bod yn ofynnol iddynt gynnal asesiadau llesiant a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol. Ar wahân i hynny, gall gyrff cyhoeddus perthnasol drafod yn uniongyrchol â'r unigolion a'r cymunedau hynny y mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt er mwyn llywio penderfyniadau strategol, er enghraifft,

27 <https://llyw.cymru/llesiant-cymru-adroddiadau-cynnydd-yn-erbyn-y-nodau-llesiant>

28 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Public-Sector-Equality-Duty>

29 <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

30 <https://llyw.cymru/tueddiadau-dyfodol-2017>

31 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

32 <https://cy.ons.gov.uk/?uri=>

drwy ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu. Yn y pen draw, mae cynnwys cymunedau yn y penderfyniadau mawr a wneir gan awdurdodau cyhoeddus yn allweddol i sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n gywir a'u bod yn arwain at y canlyniadau cadarnhaol a ddymunir. Hoffem wybod eich barn am sut y gallwn wneud hyn yn dda.

Cam 3: Arfer y ddyletswydd wrth wneud penderfyniadau

Rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol ddangos sut y maent yn bodloni gofynion y ddyletswydd. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu ystyried y dystiolaeth a nodwyd uchod, pan fo'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai gwneud penderfyniad strategol penodol yn lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol, dylai corff cyhoeddus perthnasol ei ystyried yn briodol a tharo cydbwysedd rhwng hynny ac amcanion polisi eraill a'r adnoddau sydd ar gael. Rydym yn disgwyl i'r broses hon fod yn gyson â'r prosesau sydd eisoes yn eu lle gan gyrff cyhoeddus perthnasol pan fônt yn cynnal asesiadau effaith.

Bydd angen i gyrff cyhoeddus perthnasol allu dangos tystiolaeth o drywydd archwiliad clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir dan y ddyletswydd, ond rhagwelir bod cyrff cyhoeddus perthnasol eisoes yn gweithredu fel hyn wrth wneud penderfyniadau strategol fel rhan o'u trefniadau llywodraethu; gan fod tryloywder effeithiol yn un rhan allweddol o wella sut y caiff cyrff cyhoeddus eu cyflenwi.

Nid oes dyletswydd adrodd ynghlwm wrth y darn hwn o ddeddfwriaeth, ond gan ei bod yn ddyletswydd statudol, dylai cyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos sut y maent wedi cyflawni'r ddyletswydd hon wrth wneud penderfyniadau strategol. Fel rhan o'r uchod, byddai Llywodraeth Cymru yn annog cyrff cyhoeddus perthnasol i fanylu sut y maent yn cyflawni'r ddyletswydd drwy ddefnyddio eu mecanweithiau monitro ac adrodd presennol lle bo'n briodol.

Mae adrodd integredig yn ddull a all helpu cyrff cyhoeddus perthnasol. Mae'n annog sefydliadau i adrodd a chyfathrebu ar sut y mae eu strategaeth, eu dull llywodraethu a'u perfformiad yn arwain at greu gwerth dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Hefyd, wrth ddefnyddio dull integredig, dylai cyrff cyhoeddus perthnasol edrych ar gyfleoedd i integreiddio'r ffordd y maent yn adrodd ar ddyletswyddau presennol.

Rydym hefyd yn derbyn y bydd yn anodd casglu data a gwybodaeth rheoli a fydd yn caniatáu i gyrff cyhoeddus adrodd yn uniongyrchol yn unol â'r diffiniad a gynigwn yn Adran 1. Bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus ystyried ffactorau gwahanol anfantais economaidd-gymdeithasol mewn cyd-destun gan ddibynnu ar y mater yr adroddir arno. Byddwn yn darparu canllawiau i helpu cyrff cyhoeddus o ran mesur a dadansoddi a'r ffynonellau data sy'n cefnogi'r gwaith hwn.

Mewn rhai achosion, gall cyrff cyhoeddus perthnasol hefyd ddewis llunio a chyhoeddi'r asesiadau a gynhaliwyd ganddynt dan y ddyletswydd (gallent fodoli ochr yn ochr â'r swît o asesiadau effaith a gynhaliwyd), gan ddarparu mwy o ddidwylledd a thryloywder. Byddem, felly, yn hoffi clywed am arferion gorau o ran cynnal asesiadau effaith, yn enwedig pan fo materion megis cydraddoldeb ac incwm isel yn cael eu hystyried mewn ffordd integredig, i'n helpu i ystyried hyn ymhellach.

Cam 4: Monitro'r effaith dros y tymor hwy

Credwn nad yw'n ddymunol ceisio creu fframwaith mesur arall i fonitro effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Drwy gysoni'r ddyletswydd â'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol sy'n cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal, adroddiad Llesiant

Cymru³³ ac A yw Cymru'n Decach³⁴, mae'n caniatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried effaith eu penderfyniadau yn unol â'r dangosyddion sy'n bodoli eisoes.

Cwestiwn 3

Mae Adran 3 yn nodi ein meddylfryd cychwynnol ynghylch y mathau o gamau y gall awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd.

C3A – A ydych chi'n credu bod cyhoeddi canllawiau 'interim' ar 1 Ebrill 2020, a chanllawiau 'terfynol' ar 1 Ebrill 2022, yn caniatáu digon o amser i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried goblygiadau'r ddyletswydd a'u hymgorffori'n llwyr o fewn arferion gweithio?

C3B – Pa gamau gweithredu eraill neu gamau ychwanegol y gallai gyrff cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyflawni'n ddyletswydd? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau a nodir yn Adran 3?

C3C – A allwch gynnig unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallai gyrff cyhoeddus wella eu gwaith dadansoddi ac adrodd i ystyried yn well yr anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

C3D – A allwch gynnig enghreifftiau o sut y mae awdurdodau cyhoeddus ac eraill wedi gwneud y defnydd gorau o arbenigedd pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi? Er enghraifft, sut y mae gyrff cyhoeddus yn defnyddio'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau eu dadansoddiad?

C3E – Nid ydym yn credu ei bod yn synhwyrol creu fframwaith mesur newydd i fonitro effaith y ddyletswydd. A ydych yn cefnogi hyn? (Nodwch resymau am eich ateb). Pa ddulliau a fframweithiau monitro sydd eisoes yn bodoli y gallai gyrff cyhoeddus eu defnyddio i gadw golwg ar sut y mae'r ddyletswydd yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau dros yr hirdymor?

C3F – Heblaw am ganllawiau statudol, nodwch unrhyw gymorth arall y bydd ei angen ar gyrff cyhoeddus i'w helpu i ddeall a/neu gyflawni eu dyletswydd e.e. hyfforddiant / cymorth ar-lein etc. O ran helpu corff cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswydd, a oes unrhyw agweddau y bydd angen hoelio mwy o sylw arnynt?

³³ <https://llyw.cymru/llesiant-cymru-2019>

³⁴ <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

Adran 4 – Cysylltiadau rhwng y Ddyletswydd hon a Dyletswyddau eraill

Os bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod i rym, bydd yn un o'r dyletswyddau strategol allweddol a fydd yn ceisio lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol ochr yn ochr â sawl dyletswydd ddeddfwriaethol arall sy'n benodol i Gymru. Mae'r dyletswyddau hyn yn dueddol o fod yn gymwys i gyrff cyhoeddus penodol ar lefel weithredol a chanddynt hefyd ffocws economaidd-gymdeithasol. Mae'r adran hon yn gofyn sut y gallai awdurdodau cyhoeddus ymdrin yn synhwyrol â'r cysylltiadau rhwng y dyletswyddau gwahanol. Maent yn cynnwys:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015^{Error! Bookmark not defined.} yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n darparu un egwyddor ('yr egwyddor datblygu cynaliadwy') i lywio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn arfer swyddogaethau fel eu bod yn ystyried sut y maent yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, er mwyn mynd i'r afael yn well â heriau hirdymor, megis anghydraddoldebau o ran canlyniad.

Mae'r Gymru yr hoffem ei gweld, gyda llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yn ganolog i'w gwaith, yn cael ei disgrifio yn saith nod llesiant y Ddeddf - maent yn darparu diben cyffredin ar gyfer cyrff cyhoeddus ac eraill yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant yn set integredig - ni fydd yn bosibl sicrhau Cymru iachach, fwy ffyniannus, fwy cydnerth sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, ynghyd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu heb Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r ddyletswydd i gynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth y maes y mae corff cyhoeddus yn gweithredu ynddo yn cefnogi'r ddyletswydd ymglymiad cyhoeddus yn Nyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru.

Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae'n ofynnol dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus⁶ i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb cyfle ac i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl wahanol wrth gyflawni eu gweithgareddau.

Mae materion cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol yn gorgyffwrdd cryn dipyn o safbwynt mai tlodi sy'n sail i'r anfanteision a wynebier gan grwpiau gwarchodedig penodol neu dlodi sy'n eu gwaethygu. Yn wir, gall gwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Mae graddau gwahanol o dystiolaeth^{19 35} o gydberthynas rhwng nodweddion gwarchodedig a thlodi (o ran rhyw, hil, anabledd, crefydd a chred a thuedd rhywiol) ond gall y rhesymau am amddifadedd – a'r llwybrau allan o amddifadedd – ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchodedig amrywio'n sylweddol rhwng grwpiau amddifad daearyddol.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Cyflwynodd Deddf 2010¹ ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol newydd i'r sector cyhoeddus ("y ddyletswydd gyffredinol") a ddaeth i rym gan Lywodraeth y DU ym mis Ebrill 2011. Gwnaeth y Ddeddf ddarpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru fod yn gallu gwneud rheoliadau a oedd yn gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector

³⁵ <https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebryll-2017-i-mawrth-2018>

cyhoeddus ar yr awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011³⁶ yn cynnwys dyletswyddau cydraddoldeb penodol i sicrhau bod y ddyletswydd gyffredinol yn cael ei pherfformio'n well gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Deddfwriaeth hawliau dynol

Cadarnhawyd y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol gan y DU ym 1976. Mae'r Cyfamod yn cynnwys rhai o'r darpariaethau cyfreithiol rhyngwladol mwyaf arwyddocaol sy'n sefydlu hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol mewn perthynas â:

- Gweithio dan amodau teg a ffafriol;
- Amddiffyniad cymdeithasol;
- Safon ddigonol o fyw
- Y Safonau iechyd corfforol a meddyliol uchaf;
- Addysg;
- Mwynhau manteision rhyddid diwylliannol a chynnydd gwyddonol.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998³⁷ yn nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae pawb yn y DU yn gymwys iddynt. Mae'n ymgorffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn cyfraith ddomestig. Yn benodol, mae Erthygl 14 yn seiliedig ar yr egwyddor graidd y dylwn i gyd, pwy bynnag ydym ni, fwynhau'r un hawliau dynol a chael mynediad cyfartal iddynt.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn³⁸ wedi'i ymgorffori yng nghyfraith Cymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011³⁹. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r Confensiwn wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Nid yw'r ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' yn ymestyn i gyrff cyhoeddus ehangach y tu allan i Lywodraeth Cymru ond mae effaith Mesur 2011 ar ddatblygiad polisi yng Nghymru yn bellgyrhaeddol. Yn ddiweddarach, ymgorfforwyd y ddyletswydd hon yn Neddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014⁴⁰, ac felly roedd yn sicrhau bod y ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' yn cael ei hystyried gan gyrff cyhoeddus penodol h.y. Adrannau Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol, wrth wneud penderfyniadau am blant.

Mae'r rhestr uchod o ddyletswyddau yn dangos y cysylltiadau clir rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a'r dyletswyddau sydd eisoes gan gyrff cyhoeddus. Felly, rydym yn cynnig bod pob penderfyniad strategol yn cael ei wneud mewn cyd-destun ehangach, gan ddarparu sail resymegol am ystyried materion economaidd-gymdeithasol mewn ffordd integredig. Gallai hyn helpu i symleiddio prosesau monitro ac adrodd. Byddai diddordeb gennym i glywed sut y mae cyrff cyhoeddus yn manteisio ar y cysylltiadau rhwng y meysydd trawsbynciol hyn i wella'r ffordd y caiff polisïau eu datblygu ac i leihau anghydraddoldeb.

36 <http://www.legislation.gov.uk/cy/2011/1064/contents/made>

37 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/contents>

38 <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/>

39 <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents>

40 <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents>

Cwestiwn 4

Mae Adran 4 yn edrych ar y cysylltiadau rhwng y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a dyletswyddau eraill y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cyflawni.

C4A – Beth gallai gyrff cyhoeddus perthnasol ei wneud i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y dyletswyddau gwahanol yn cael eu rheoli'n effeithiol o fewn sefydliadau?

C4B – A allwch ddarparu unrhyw enghreifftiau o arfer da yr ydych naill ai wedi'u gweld neu wedi ymgymryd â nhw o ran defnyddio dull integredig i ymdrin â materion megis tlodi, cydraddoldeb a hawliau dynol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Adran 5 – Dogfennau Ategol

I asesu effaith posibl cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, rydym wedi cyhoeddi'r dogfennau drafft a ganlyn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn:

Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, y Swyddog Cyfrifyddu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid am effaith debygol y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'n cynnwys yr amcangyfrifon gorau o'r costau a'r arbedion posibl sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig sy'n crynhoi'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf sylweddol ynghyd â manylion monitro'r cynnig a'i werthusiad.

Byddem yn croesawu eich barn ar gyd-destun y dogfennau hyn, yn enwedig yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn penderfynu a yw'r costau a'r manteision a ddarperir yn deg ac yn rhesymol.

Cwestiwn 5

C5A – A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau tebygol y Ddyletswydd?

C5B – A oes gennych unrhyw ddata ychwanegol/amgen i helpu i lywio'r asesiad terfynol o'r costau a'r manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Crynodeb o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol:

- ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol;
- dangos eu bod wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar anfantais economaidd-gymdeithasol i lywio sut y gallant dargedu eu polisiau a'u hadnoddau yn well i helpu'r rhai sydd fwyaf dan anfantais;
- taro cydbwysedd rhwng buddioldeb cyflawni'r nod honno ac amcanion eraill;
- gweithio o fewn cyllidebau a dyraniadau adnodd presennol, ac o fewn prosesau cynllunio, penderfynu ac adrodd sy'n bodoli eisoes.

Nid nod y ddyletswydd yw:

- creu llinyn cydraddoldeb neu nodwedd warchodedig newydd;
- creu hawliau traddodadwy newydd ar gyfer unigolion;
- mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn unigolion yn sgil ffactorau economaidd-gymdeithasol;
- disodli pob blaenoriaeth strategol arall;
- creu prosesau monitro ac adrodd beichus newydd;
- effeithio'n uniongyrchol ar benderfyniadau gweithredol neu benderfyniadau dydd i ddydd neu wneud penderfyniadau o'r fath; nac
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio eu hadnoddau i gael gwared ar ganlyniadau anghyfartal ym mhob achos lle y cânt eu nodi.

Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1

Y termau allweddol a ddiffinnir yn yr adran hon yw:

- Penderfyniadau o natur strategol
- Anghydraddoldebau o ran canlyniad
- Anfantais economaidd-gymdeithasol

C1A – A ydych yn cytuno bod y diffiniadau uchod o'r termau hyn yn rhesymol, yn hawdd eu deall a dylid eu cynnwys o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd ar fin eu cyhoeddi ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol?

C1B – A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'benderfyniad strategol'?

"Penderfyniadau sy'n pennu blaenoriaethau cyffredinol, strategaethau a pholisïau allweddol sefydliad, ei dargedau, ei ddulliau cyffredinol o weithredu a'i wariant o ran cyflenwi ei fusnes"

Os nad ydych yn cytuno â'r naill ddiffiniad, a fedrwch ddarparu un arall?

C1C – A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig i helpu i ddiffinio anghydraddoldebau o ran canlyniad?

C1D – A ydych yn cytuno â'r diffiniad o anfantais economaidd-gymdeithasol?

"byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb unrhyw gyfoeth cronedig neu ychydig ohono, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol. Gellir profi anfantais economaidd-gymdeithasol mewn lleoedd a chymunedau o ddiddordeb, gan arwain at fwy o ganlyniadau negyddol megis allgáu cymdeithasol."

Os nad ydych yn cytuno â'r diffiniad hwn, a fedrwch ddarparu un arall?

Cwestiwn 2

C2A – Yn seiliedig ar y prawf yn adran 2(6) a'r rhestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd, yn ein barn ni, yn bodloni'r prawf, a ydych yn cytuno y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn gymwys i'r holl gyrff a restrir? Nodwch unrhyw gyrff nad ydynt wedi'u rhestru yr ydych chi'n meddwl sy'n bodloni'r prawf uchod ac y dylid eu cynnwys, ynghyd ag unrhyw resymau am wneud hynny.

C2B – Yn seiliedig ar y rhestr o gyrff cyhoeddus cymwys yng Nghymru, nodwch unrhyw un neu ragor o'r gyrff a restrir y credwch chi na ddylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt, a rhwch esboniad pam y dylid eithrio awdurdod penodol.

Cwestiwn 3

Mae Adran 3 yn nodi ein meddylfryd cychwynnol ynghylch y mathau o gamau y gallai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd.

C3A – Pa gamau gweithredu eraill neu gamau ychwanegol y gallai gyrff cyhoeddus eu cymryd i ddangos eu bod yn cyflawni'n ddyletswydd? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau a nodir yn Adran 3?

C3B – A allwch gynnig unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallai cyrff cyhoeddus wella eu gwaith dadansoddi ac adrodd i ystyried yn well yr anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cwestiwn 4

Mae Adran 4 yn edrych ar y cysylltiadau rhwng y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a dyletswyddau eraill y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cyflawni.

C4A - Beth allai cyrff cyhoeddus perthnasol ei wneud i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y dyletswyddau gwahanol yn cael eu rheoli'n effeithiol o fewn sefydliadau?

C4B – A allwch ddarparu unrhyw enghreifftiau o arfer da yr ydych naill ai wedi'u gweld neu wedi ymgymryd â nhw o ran defnyddio dull integredig i ymdrin â materion megis tlodi, cydraddoldeb a hawliau dynol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Cwestiwn 5

C5A – A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau tebygol y Ddyletswydd?

C5B - A oes gennych unrhyw ddata ychwanegol/amgen i helpu i lywio'r asesiad terfynol o'r costau a'r manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?

Cwestiwn 6

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithaso yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 7

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig i gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 8

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

Atodiad A

Y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n cyfrannu at Gymru Fwy Cyfartal.

1. Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g.
2. Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus.
3. Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmygu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau'r dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).
4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) yn yr aer.
5. Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmygu, bwyta pum ffrwyth/llysieuyn bob dydd, byth/prin yn yfed a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).
8. Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
10. Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen.
16. Canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.
18. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.
19. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol.
20. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith.
21. Canran y bobl sydd mewn gwaith.
22. Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
24. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.
25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.
26. Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.
27. Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.
29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.
30. Canran y bobl sy'n unig.
31. Canran yr anheddau sydd heb beryglon.

32. Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr.

33. Canran yr anheddau gyda pherfformiad ynni digonol.

34. Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd.

35. Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

38. Canran y bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.

41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau bydeang yng Nghymru.

43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru.

45. Canran y cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan.

46. Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.